POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD

**PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

**ADRODDIAD AR BRAESEPT ARFAETHEDIG Y COMISIYNYDD AR GYFER 2024/2025**

**Cefndir**

Gwnaed yr adroddiad hwn yn unol â dyletswydd statudol Panel yr Heddlu a Throsedd a gynhwysir ym Mharagraff 3(2), Atodlen 5 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf).

**Adolygiad o'r Praesept Arfaethedig**

Rhoddwyd gwybod i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru am braesept arfaethedig y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer 2024/2025 ar 12 Ionawr 2024, yn unol â Pharagraff 2, Atodlen 5 y Ddeddf.

Ystyriodd Panel yr Heddlu a Throsedd adroddiad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn amlinellu'r braesept a'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2024/2025, ynghyd â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ddydd Llun, 29 Ionawr 2024 ym Modlondeb, Conwy.

Cynigodd y Comisiynydd gynyddu'r praesept i £106,269,443 (cynnydd o 6.01% o braesept 2023/2024), a fyddai'n cynyddu Treth y Cyngor o 4.97% (cyfwerth â £349.65 y flwyddyn, cynnydd o £16.56 y flwyddyn, neu 32c yr wythnos i eiddo Band D).

Cafodd y Panel hefyd gyflwyniad gan y Prif Swyddog Cyllid (Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd), a dynnodd sylw at y canlynol:

- Y praesept arfaethedig
- Newidiadau yn y dyraniadau cyllid rhwng 2023/2024 a 2024/2025
- Dyraniadau Canolog (brigdorri)
- Newidiadau i Grantiau Heddlu Gogledd Cymru
- Chwyddiant
- Arbedion

- Twf
- Manylion cynnydd yn Nhreth y Cyngor
- Canlyniadau Arolygon
- Risgiau
- Cyllideb Arfaethedig ar gyfer 2023/2024

Roedd yr Aelod sy'n Gefnogwr ar gyfer Cyllid yn teimlo ei bod yn gyllideb deg a bu iddo gydnabod yr arbedion a wnaed o £3.171,837, yn arbennig mewn perthynas â'r gwaith a wnaed gan yr Adran Gaffael, a olygodd arbedion o £0.286 miliwn a'r incwm buddsoddi a gynigiwyd. Cydnabuwyd hefyd y gwaith a wnaed gan y Rhaglen Optimeiddio i edrych ar feysydd gweithredol penodol a sut y gellir defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y ffordd orau.

Nodwyd y byddai grantiau penodol ar gyfer Swyddogion Cyswllt Ysgolion yn cael eu dileu ac y byddai'r grant ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn gostwng yn 2024/2025. Fodd bynnag, oherwydd pwysigrwydd y swyddogaethau hyn, cynigiwyd defnyddio cyllid o'r gyllideb sylfaenol, cronfeydd wrth gefn a chynnydd yn Nhreth y Cyngor er mwyn amddiffyn y swyddogaethau hyn ar gyfer y flwyddyn i ddod. Bu i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru nodi fod trafodaethau yn cael eu cynnal ar sut i gyflwyno'r Rhaglen Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan yn y dyfodol.

Hefyd codwyd nifer o faterion fel a ganlyn:

- Cyfeiriwyd at y meysydd twf a phlismona gemau pêl-droed Wrecsam - nodwyd y gallai'r Llu ond godi tâl am blismona y tu mewn i'r maes pêl-droed. Fodd bynnag, bu i'r Prif Gwnstabl nodi ei bod wedi cwrdd â Phrif Weithredwr y clwb pêl-droed yn ddiweddar a soniodd am y gwaith cadarnhaol mae'r clwb yn ei wneud o fewn y gymuned a bod darn o waith yn cael ei wneud i fesur effaith hyn.

- Canlyniadau'r arolwg a gynhaliwyd gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
- Dal gafael ar Swyddogion.
- Pwysigrwydd y Rhaglen Cyswllt Ysgolion yn targedu'r rhai a oedd wedi eu gwahardd neu nad oeddent yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd.

Yn yr hinsawdd ariannol gyfredol, roedd y Panel yn teimlo ei bod yn gyllideb deg a bu iddynt gydnabod y gwaith a wnaed i ganfod arbedion a symud adnoddau o fewn y sefydliad, ac felly, roedd y Panel yn cefnogi'r cynnydd arfaethedig, er mwyn darparu cyllideb ddigonol i alluogi darparu gwasanaeth plismona gweithredol yng Ngogledd Cymru ar gyfer 2024/2025.

**ARGYMHELLION:**

**(a) Bod y praesept yn cael ei gynyddu i £106,269,443 ar gyfer 2024/2025.**

- **Bydd hyn yn cynyddu Treth y Cyngor o 4.97% - mae hynny'n gyfystyr â £349.65 y flwyddyn, sef cynnydd o £16.56 y flwyddyn neu 32c yr wythnos ar gyfer eiddo band D.**
- **Mae hyn yn cynyddu'r Sail Treth 0.99%**
- **Mae hyn yn gynnydd mewn praesept o 6.01% o 2023/2024.**

**(b) Nodi bod Grant gwaelodlin y Llywodraeth wedi cynyddu 5.97%/£5.297 miliwn.**

**(c) Nodi mai cyfanswm pwysau chwyddiant yw 8.61% neu £16.270 miliwn.**

**(d) Nodi bod £4.719 miliwn wedi ei ddyrannu fel grant penodol ychwanegol, ond mewn realiti mae hyn i gyllido'r gyllideb sylfaenol**

**(e) Nodi bod £2.166 miliwn o dwf strwythurol ac na ellir ei osgoi wedi'i gynnwys.**

**(f) Nodi bod £3.171 miliwn o arbedion wedi eu nodi ar gyfer 2024/2025.**

**(g) Nodi bod £0.776 miliwn wedi ei gynnwys i amddiffyn niferoedd Swyddogion Cyswllt Ysgolion a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn dilyn dileu a gostwng grantiau Llywodraeth Cymru.**

**(h) Nodi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, sy'n cynnwys y tybiaethau canlynol:**

- **Bydd Treth y Cyngor yn cynyddu £13 yn y blynyddoedd dilynol, sydd gyfwerth â 3.72% yn 2025/26, 3.58% yn 2026/27, a 3.46% yn 2027/2028 a 3.35% yn 2028/2029.**
- **Amcangyfrifir y bydd grantiau plismona'n cynyddu 1% yn y blynyddoedd 2024/25 i 2028/2029.**
- **Y bydd y dyfarniad cyflog blynyddol yn 2.5% ym mis Medi 2024, gyda 0.5% ychwanegol yn cael ei glustnodi mewn cronfeydd wrth gefn ar gyfer 2024/2025, a 2.5% i'w gymhwyso bob mis Medi dilynol.**

30 Ionawr 2024

*This document is also available in English*